

Hawdd ei ddeall

agc Arolygiaeth
Gofal Iechyd
Cymru
Healthcare
Inspectorate
Wales hiw

Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

Gadewch imi ffynnu

Beth sydd yn gallu cael ei wneud yn well
i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd yng
Nghymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gadewch imi Ffynnu: Adolygiad Cenedlaethol o gymorth, gofal a chefnogaeth a phontio cynnar i blant anabl yng Nghymru'.

Tachwedd 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen

yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth maen nhw'n feddwl ar dudalen 34.



Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl AGC. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:



Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

E-bost: agc@llyw.cymru

Ffôn: 0300 7900 126



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#)

Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Cyflwyniad.....	4
Yr Adolygiad.....	6
Camau Gweithredu sydd eu hangen.....	7
Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod, a sut rydyn ni'n gallu ei meddwl y gallai fod yn well.....	10
Partneriaeth – Gweithio gyda'n Gilydd.....	22
Atal – Stopio pethau rhag mynd yn waeth.....	26
Casgliad.....	31
Beth sydd yn digwydd nesaf.....	33
Geiriau anodd.....	34

Cyflwyniad



Mae plant angen cefnogaeth i fyw bywyd llawn a hapus.



Efallai bod plant anabl angen rhagor o gefnogaeth.



Mae'n bwysig bod cyrff a staff yn gweithio gyda theuluoedd i wneud yn siŵr bod plant anabl yn cael y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir.



Fe wnaethon ni gynnal adolygiad i edrych ar brofiadau plant anabl a'u teuluoedd.



Mae'r ddogfen yma yn dweud beth rydyn ni wedi ei ddarganfod am y gefnogaeth mae plant anabl yn ei dderbyn a beth sydd yn gweithio'n dda a beth sydd yn gallu cael ei wneud yn well.

Roedden ni eisiau gwybod:



- sut mae pobl yn derbyn gwybodaeth, cyngor a help



- am **asesiadau** a chynlluniau gofal a chefnogaeth



- pa mor dda oedd cefnogaeth i blant anabl a'u teuluoedd.



Mae **asesiad** yn gofyn cwestiynau i chi ac yn cael gwybod amdanoch. Mae hyn yn helpu gweithwyr proffesiynol i gynllunio eich cefnogaeth a deall pa gymorth sydd ei angen arnoch.

Yr Adolygiad

Fe wnaethon ni gynnal adolygiad oedd yn edrych ar 4 prif maes:

Llais a rheolaeth pobl




Ydy lleisiau plant anabl a'u rhieni neu gofalwyr yn cael eu clywed?



Ac ydyn nhw yn cael cefnogaeth i wneud penderfyniadau am eu bywydau ?

Stopio pethau rhag mynd yn waeth



Ydy awdurdodau lleol yn helpu i stopio anghenion pobl rhag mynd yn waeth ac angen rhagor o gefnogaeth?

Llesiant



Ydy awdurdodau lleol yn helpu plant anabl a'u rhieni neu ofalwyr i gael bywydau hapus?

Gweithio gyda'n gilydd



Ydy awdurdodau lleol yn gweithio gyda chyrrff a gweithwyr proffesiynol eraill i roi gwasanaeth da i blant anabl a'u rhieni neu ofalwyr?

Camau Gweithredu sydd eu hangen

Awdurdodau Lleol

I wneud pethau yn well i blant anabl a'u teuluoedd, mae angen i awdurdodau lleol:



- Meddwl am hawliau pobl
- Cyfathrebu yn well gyda phlant anabl
- Gwrando ar blant anabl



- Gwneud yn siŵr eu bod yn dilyn y ddeddf **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014**
- Gwneud yn siŵr bod gan weithwyr proffesiynol sydd yn gweithio gyda phlant anabl yr hyfforddiant cywir



- Gwneud yn siŵr bod cyfleoedd i glywed meddyliau plant anabl a'u rhieni neu ofalwyr
- Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth **hygyr** yn cael ei roi yn brydlon



Gwybodaeth **hygyr** ydy gwneud yn siŵr bod gwybodaeth yn cael ei roi mewn ffordd y mae rhagor o bobl yn gallu ei ddefnyddio. Er enghraifft, gwybodaeth Hawdd ei Ddeall.



- Gwneud yn siŵr bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnig
- Edrych a gwneud yn siŵr bod gwasanaethau o ansawdd da a bod gwybodaeth yn cael ei gofnodi yn gywir



- Gwneud yn siŵr bod gweithwyr proffesiynol yn gwybod am **ddiogelu** plant anabl

Diogelu ydy cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth



- Gwneud yn siŵr bod digon o wasanaethau addas i blant anabl yn yr ardal leol




- Cynnwys plant anabl a'u teuluoedd pan yn gwneud penderfyniadau am symud i wasanaethau oedolion

- Gwneud yn siŵr eu bod yn dilyn y **Canllaw Gofal Parhaus I Blant a Phobl Ifanc**. Canllaw gan Lywodraeth Cymru ydy hwn. Mae'n helpu i gynllunio a chefnogi anghenion gofal plant.



- Gwneud rhagor o gyfleoedd i weithio gyda chyrrff eraill i wella gwasanaethau



- Dilyn y rheolau o'r enw **Cod Ymarfer Statudol ar ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth**. Mae rheolau am sut y dylai gwasanaethau awtistiaeth weithio. A pha wasanaethau ddylai fod ar gael.

Byrddau Iechyd Lleol (GIG Lleol)

I wneud pethau yn well i blant anabl a'u teuluoedd, mae angen i fyrdau iechyd lleol (GIG lleol):




- Edrych ar wasanaethau iechyd i blant anabl i wneud yn siŵr bod digon o wasanaethau iechyd ar gael i blant anabl



- Gwneud yn siŵr eu bod yn dilyn y **Canllaw Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc**. Llywodraeth Cymru sydd wedi gwneud y canllaw yma.



- Gwneud yn siŵr bod digon o leoliadau lleol i blant sydd eu hangen nhw
- Gwneud yn siŵr bod rhagor o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth gyda chyrrff eraill i wella gwasanaethau i blant anabl.



- Dilyn y rheolau o'r enw y **Cod Ymarfer Statudol ar Ddarpariaeth Gwasanaethau Awtistiaeth**.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod, a sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well

Llais a rheolaeth pobl

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Roedd yna rai enghreifftiau da oedd yn dangos bod plant anabl a'u teuluoedd yn cael eu clywed.



Roedd y rhan fwyaf o rieni a gofalmwr plant anabl yn teimlo bod eu gweithwyr cymdeithasol yn dod i'w hadnabod yn dda.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Fe ddylai **gweithwyr proffesiynol** gael rhagor o amser a chyfleoedd i ddod i adnabod plant yn well.



Gweithwyr proffesiynol ydy'r bobl sydd yn gweithio gyda phlant anabl a'u teuluoedd. Er enghraifft, gweithwyr cymdeithasol.




Fe ddylai awdurdodau lleol a **gweithwyr proffesiynol** ddefnyddio ffyrdd gwahanol o gyfathrebu gyda gwahanol bobl, yn dibynnu ar eu anghenion.



Mae **gweithwyr proffesiynol** yn cael llawer o hyfforddiant ond dydyn nhw ddim bob amser yn cael hyfforddiant sydd yn arbennig i anghenion y plentyn maen nhw'n gweithio gyda nhw.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Roedd enghreifftiau da o rieni, gofalwyr a **gweithwyr proffesiynol** yn siarad i fyny dros blant anabl.

Rydyn ni'n meddwl y dylid cael rhagor o gyfleoedd ar gyfer **eiriolwyr proffesiynol**.



Eiriolydd ydy rhywun sydd yn siarad i fyny drosoch chi i'ch helpu chi i ddweud beth rydych chi eisiau ei ddweud a gwneud yn siŵr bod eich anghenion yn cael eu hateb.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rydyn ni'n meddwl y dylai **eiriolwyr** gael rhagor o gyfleoedd.



Mae hyn yn meddwl helpu pobl i fod yn **hunaneiriolwyr**. Mae hyn yn meddwl gallu siarad drosoch eich hun.



Fe ddylai **gweithwyr proffesiynol** wybod rhagor am **eiriolwyr** a pham eu bod nhw yn bwysig.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Mae'r ddeddf o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014** yn dweud bod angen cynnig y cyfle i ofalwyr yn cynnwys rhieni plant anabl i gael eu hanghenion wedi eu hasesu gan awdurdodua lleol.



Roedd yna rai enghreifftiau lle roedd anghenion gofalwyr yn cael eu hateb.

Ond roedd yna lawer o ofalwyr heb gael **asesiad**.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rhaid i awdurdodua lleol wneud yn siŵr bod gofalwyr yn cael eu hawliau.



Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth ydy eu hawliau.




Rhaid i **weithwyr proffesiynol** wybod beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am **asesiadau** ac anghenion gofalwyr.



Fe ddylai awdurdodau lleol fod yn well am gadw gwybodaeth am **asesiadau** gofalwyr.



Mae angen i awdurdodau lleol fod yn well hefyd am edrych ar pam nad ydy rhai gofalwyr eisiau **asesiad**.



Mae angen i awdurdodau lleol a chyrff edrych yn fwy aml ar y gefnogaeth mae gofalwyr yn ei gael.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Mae angen rhestr o blant anabl. Fe ddylai'r rhestr yma gael ei diweddarau.



Dydy pob awdurdod lleol ddim wedi gwneud hyn er bod hynny yn gyfraith.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rhaid i awdurdodau lleol wneud rhestr o blant anabl yn eu hardal.



Rhaid i'r rhestr yma gael ei diweddarau. Fe fydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i gynllunio gwasanaethau i blant anabl.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Mae **gweithwyr proffesiynol** yn gweithio'n galed i geisio gwneud yn siŵr bod gan blant anabl ddyfodol da.



Roedd **gweithwyr proffesiynol** yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu penaethiaid.



Weithiau roedd hi'n anodd i awdurdodau lleol recriwtio rhagor o staff.

Mae hyn yn bwysig oherwydd roedd gan rai teuluoedd wahanol **weithwyr proffesiynol** oedd yn newid yn aml.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rydyn ni'n meddwl y dylai plant a theuluoedd gael yr un **gweithwyr proffesiynol** mor hir ag sydd yn bosibl fel bod perthnasoedd da yn gallu cael eu gwneud.


Llesiant

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Roedd awdurdodau lleol yn gwybod am **ddiogelu** ac yn ei gymryd o ddifrif.


Diogelu ydy cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth.



Roedd yna ychydig o adegau lle roedd pryderon **diogelu** ddim bob amser yn cael eu hadnabod yn llawn.



A doedd y cynlluniau gofal a chefnogaeth ddim yn gwneud yn siŵr bod anghenion yn cael eu hateb yn llawn.



Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:

Rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod gweithdrefnau **diogelu** i blant anabl mor gryf ag y maen nhw i blant sydd ddim yn anabl.



Fe ddylai **gweithwyr proffesiynol** wybod bod plant anabl yn gallu bod mewn mwy o berygl o gamdriniaeth ac esgeulustod.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Roedd y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr plant anabl yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth roedden nhw yn ei dderbyn.



Ond roedd rhai yn teimlo bod angen iddyn nhw gael rhagor o wybodaeth, cyngor a help.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rydyn ni'n meddwl y gallai awdurdodau lleol a **gweithwyr proffesiynol** fod hyd yn oed yn well ar wneud yn siŵr bod plant anabl a'u teuluoedd yn cael yr wybodaeth, cyngor a help cywir.



Rydyn ni hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig na ddylai pobl orfod aros am wybodaeth, cyngor a help.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Roedd yna enghreifftiau da o gynlluniau **asesiadau**, gofal a chefnogaeth yn cael eu gwneud yn dda ac yn cynnwys llais pobl.



Ond rydyn ni hefyd yn meddwl y gallai cynlluniau **asesiadau**, gofal a chefnogaeth gael eu gwneud hyd yn oed yn well.


Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Nodau

Mae angen i awdurdodau lleol wneud i gynlluniau **asesiadau**, gofal a chefnogaeth edrych ar gryfderau pobl a chanolbwyntio ar **ganlyniadau**.

Mae **canlyniad** fel nod. Dyma'r canlyniad mae rhywun eisiau.



Fe ddylai'r cynlluniau **asesiadau**, gofal a chefnogaeth ddilyn y cod ymarfer. Dyma'r rheolau ar gyfer gwneud pethau'r ffordd gywir.



Fe ddylid edrych ar y cynlluniau **asesiadau**, gofal a chefnogaeth i wneud yn siŵr eu bod o ansawdd da.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Roedd yna enghreifftiau da o gefnogaeth yn cael ei roi i ofalwyr ifanc a brodyr neu chwiorydd plant anabl.



Ond rydyn ni'n meddwl bod awdurdodau lleol yn gallu gwneud rhagor i helpu.



Mae yna rai brodyr a chwiorydd a gofalwyr ifanc sydd yn aros i gael y gefnogaeth maen nhw ei angen.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Fe ddylai awdurdodau lleol edrych ar y gefnogaeth maen nhw yn ei roi i ofalwyr ifanc a brodyr neu chwiorydd plant anabl.



Fe ddylen nhw ddarganfod os oes angen rhagor o wasanaethau ac edrych ar sut maen nhw'n gallu creu gwasanaethau newydd.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Fe ddylai **taliadau uniongyrchol** gael eu cynnig yn amlach ac mae angen rhoi rhagor o wybodaeth amdano

Taliad uniongyrchol ydy arian mae gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ei roi i bobl yn lle gwasanaeth. Mae person yn gallu gwario'r arian ar gael y gefnogaeth a'r gwasanaethau maen nhw eisiau. Mae hyn yn rhoi rhagor o reolaeth i bobl.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Mae angen i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod **taliad uniongyrchol** yn cael ei roi fel dewis wrth wneud cynlluniau asesiadau, gofal a chefnogaeth.



Mae angen i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod digon o ddewis o wasanaethau i blant anabl a'u rhieni neu ofalwyr i benderfynu i ddefnyddio **taliad uniongyrchol**.



Os ydy pobl yn defnyddio **taliad uniongyrchol** yna fe ddylid gwneud cynlluniau am ddewisiadau gofal a chefnogaeth eraill rhag ofn argyfyngau .

Beth rydyn ni wedi ei ddysgu:



Roedd yna enghreifftiau da lle roedd plant anabl mewn gofal yun cael cefnogaeth dda ac yn cael eu lleisiau wedi eu clywed.



Ond roedd yna adegau hefyd lle roedd plant anabl yn byw y tu allan i'w hardal leol.




A hefyd lle nad oedden nhw bob amser yn cael ymweliadau gan **weithwyr proffesiynol** mewn amser da.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rydyn ni'n meddwl bod rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod plant anabl yn cael gwasanaeth da mewn gofal.



Mae angen i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod rhagor o wasanaethau gofal lleol yn cael eu darparu.



Rydyn ni hefyd yn meddwl y dylai fod yna welliannau i gynllunio ar gyfer plant anabl pan maen nhw'n cyrraedd bywyd oedolyn.

Partneriaeth – Gweithio gyda'n Gilydd



Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol, **gweithwyr proffesiynol** a chyrff yn gweithio gyda'i gilydd a gyda phlant anabl a'u rhieni a gofalwyr.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Roedd enghreifftiau da o gyrff, awdurdodau lleol a **gweithwyr proffesiynol** yn gweithio gyda'i gilydd.




Roedd yr enghreifftiau gorau yn cynnwys **gweithwyr proffesiynol** yn gweithio gyda phlant anabl, rhieni, gofalwyr a theuluoedd.



Ond roedd rhai adegau lle y gallai cyfathrebu ar draws y partneriaethau yma fod yn well.

Syt rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rydyn ni'n meddwl bod awdurdodau lleol. Byrddau Iechyd a darparwyr gwasanaethau yn gallu gweithio gyda'i gilydd hyd yn oed yn well.



Nodau

Fe ddylen nhw ganolbwyntio eu gwaith ar y bobl maen nhw yn eu cefnogi a chanolbwyntio ar **ganlyniadau**.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfpd:



Yr enghreifftiau gorau o **bontio** oedd lle roedd gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd. A gyda phlant anabl a'u rhieni a'u gofalwyr i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer newidiadau.

Mae **pontio** yn meddwl symud. Yn yr enghraifft yma mae'n meddwl symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.



Ond roedd rhai rheini a gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo y gallai cynllunio ar gyfer pontio eu plentyn fod wedi bod yn well.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rydyn ni'n meddwl y dylai plant anabl gael eu cynnwys yn y cynllunio ar gyfer eu dyfodol.



Mae hyn yn meddwl rhoi gwybodaeth gyda digon o amser i feddwl amdano.



Rydyn ni'n meddwl bod angen rhoi rhagor o amser i gynllunio'r **pontio**.



Hefyd mae angen mwy o ddewisiadau i blant anabl am lle maen nhw'n byw, a beth maen nhw'n ei wneud gyda'u hamser.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Weithiau doedd awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddim yn cytuno ar eu cyfrifoldebau dros blant oedd angen gofal parhaus.



Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu canllaw am hyn ym mis Ionawr 2020.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Mae angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd wneud yn siŵr eu bod yn gwybod am y canllaw sydd wedi ei roi gan Lywodraethy Cymru am ofal parhaus, a gweithredu arno.

Atal – Stopio pethau rhag mynd yn waeth


Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Os ydy plant anabl a'u teuluoedd neu ofalwyr yn cael cefnogaeth pan maen nhw ei angen maen nhw'n gallu cael bywydau gwell .



Mewn rhai rhannau o Gymru roedd enghreifftiau da o gefnogaeth yn cael ei gynnig mewn pryd .



Ond roedd rhai rhieni a gofalwyr yn teimlo'n ddryslyd am yr help roedden nhw'n gallu ei gael.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rydyn ni'n meddwl y gallai cefnogaeth a help i blant anabl a'u teuluoedd fod yn well os ydy e'n cael ei roi ar yr amser cywir.



Mae awdurdodau lleol yn gallu gwella'r wybodaeth maen nhw yn ei roi a'i wneud yn fwy **hygyrch**.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Dyweddodd y rhan fwyaf o rieni neu ofalwyr oedd yn derbyn cefnogaeth eu bod yn gwerthfgawrogi'r gefnogaeth.



Ond roedd llawer yn dweud bod eu plentyn angen rhagor o gefnogaeth.



Fe wnaethon ni hefyd ddarganfod bod amseroedd aros hir am rhai o'r gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig i blant a'u teuluoedd.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rydyn ni'n meddwl y dylai awdurodau lleol a byrddau iechyd edrych yn fwy aml ar y rhestrau aros.



Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr nad ydy anghenion pobl yn mynd yn waeth tra maen nhw'n aros am wasanaeth.



Rydyn ni hefyd yn meddwl bod angen gwneud rhagor o wasanaethau fel bod rhagor o bobl yn gallu cael cefnogaeth pan maen nhw ei angen.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Weithiau roedd plant anabl a'u teuluoedd yn cael eu holi am y gwasanaethau yr hofffen nhw ei weld a'r gwasanaethau maen nhw wedi eu derbyn.



Ond dywedodd dros hanner y teuluoedd nad oedden nhw wedi cael eu holi.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Rydyn ni'n meddwl ei bod yn bwysig bod plant anabl a'u teuluoedd yn cael eu holi am wasanaethau.



Mae angen i awdurdodau lleol holi rhagor o bobl yn y dyfodol pan maen nhw'n cynllunio gwasanaethau.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Roedd yna rai enghreifftiau da o sut roedd **technoleg gynorthwyol**, cynorthwyon ac addasiadau yn cael eu gwneud i helpu plant anabl.


Technoleg gynorthwyol ydy offer i helpu i wneud bywyd yn fwy hawdd



Mae hyn yn meddwl bod eu cartrefi yn cael eu gwneud yn fwy hygyrch ac offer yn cael ei ddarparu i helpu plant anabl i fod mor annibynnol â phosibl.



Ond fe wnaethon ni hefyd ddarganfod bod rhestrau aros ar gyfer rhai offer ac addasiadau. Roedd awdurdodau lleol yn edrych ar y rhestrau aros yma.



Enghreifftiau o offer ac addasiadau ydy rampiau, canllawiau neu rhywbeth sydd yn gwneud bywyd yn fwy hawdd.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:



Mae angen i amseroedd aros ar gyfer therapi galwedigaethol fod yn fyrrach.



Gallai awdurdodau lleol wneud hyd yn oed yn well wrth feddwl am **dechnoleg gynorthwyol**.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:




Roedd rhai enghreifftiau da o wasanaethau chwarae a gwasanaethau cymunedol.



Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i geisio gwneud yn siŵr bod digon o gyfleoedd chwaraeon a hamdden i blant anabl.

Ond roedd rhai rhieni yn teimlo nad oedd digon.

Sut rydyn ni'n meddwl y gallai fod yn well:




Rydyn ni'n meddwl bod angen rhagor o ddewisiadau i blant a phobl ifanc anabl i wneud y pethau maen nhw'n eu hoffi yn agos at lle maen nhw'n byw.



Rydyn ni hefyd yn meddwl y dylid gofyn i blant a'u teuluoedd beth maen nhw eisiau ei weld yn yr ardal lle maen nhw'n byw


Casgliad



Fe wnaethon ni ddarganfod bod awdurdodau lleol a'r cyrff maen nhw'n gweithio gyda nhw eisiau gwneud pethau yn well i blant anabl a'u teuluoedd.



Fe fydd angen iddyn nhw wneud yn siŵr eu bod nhw'n meddwl am hawliau pobl pan maen nhw yn cynllunio gwasanaethau.



Rydyn ni'n gwybod bod y pandemig COVID-19 wedi cael effaith mawr ar blant anabl a'u teuluoedd.



Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu canllaw ar sut mae pobl yn gallu cael eu cefnogi ar ôl y pandemig.



Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol a'r cyrff maen nhw'n gweithio gyda nhw yn adeiladu ar beth sydd wedi gweithio'n dda yn ystod y pandemig a datblygu gwasanaethau i blant anabl.



Mae'n bwysig hefyd bod awdurdodau lleol a chyrff yn gwrando ar blant anabl a'u rhieni a gofalwyr.



Fe fydd hyn yn helpu i wneud gwasanaethau yn well ac yn fwy addas.



Ac fe fydd hyn yn helpu i gefnogi plant anabl i gael bywydau llawn a hapus.

Beth sydd yn digwydd nesaf



Rydyn ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrrff feddwl am yr adroddiad yma .



Fe fydd yn helpu i wneud gwasanaethau yng Nghymru yn well i blant anabl a'u teuluoedd.



Fe fyddwn ni yn parhau i edrych ar y gwasanaethau sydd yn cael eu cynnig i blant anabl a'u teuluoedd.

Geiriau anodd

Asesiad

Mae asesiad yn gofyn cwestiynau i chi ac yn cael gwybod amdanoch. Mae hyn yn helpu gweithwyr proffesiynol i gynllunio eich cefnogaeth a deall pa gymorth sydd ei angen arnoch.

Canlyniad

Mae canlyniad fel nod. Dyma'r canlyniad mae rhywun yn gallu ei ddisgwyl o gael gwasanaeth o ansawdd da.

Diogelu

Cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth.

Eiriolydd

Eiriolydd ydy rhywun sydd yn siarad i fyny drosoch chi i'ch helpu i ddweud beth rydych chi eisiau ei ddweud a chael eich anghenion wedi eu hateb.

Gweithwyr proffesiynol

Pobl sydd yn gweithio gyda phlant anabl a'u teuluoedd. Er enghraifft gweithwyr cymdeithasol.

Taliad uniongyrchol

Arian mae gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ei roi i bobl yn lle gwasanaeth. Mae'r person yn gallu gwario'r arian ar gael y gefnogaethy a'r gwasanaethau maen nhw eisiau. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i bobl.

Technoleg gynorthwyol

Mae yna offer sydd yn helpu i wneud bywyd yn fwy hawdd.

Pontio

Mae pontio yn meddwl symud. Yn yr enghraifft yma mae'n meddwl symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

